Ombwdsmon
Ombudsman
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU
PUBLIC SERVICES OMBUDSMAN FOR WALES

Ein cyf: CV

Gofynnwch am: Chris Vinestock
01656 641173
Chris.Vinestock@ombwdsmon.cymru

Dyddiad: 28 Medi 2021

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru

**Drwy e-bost yn unig:**
SeneddCyllid@senedd.wales

Annwyl Mr Owen Griffiths

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru:**
**Amcangyfrif ar gyfer 2022/23 a'r Gyllideb Atodol 2021/22**

Rwy'n falch o atodi ein Hamcangyfrif ar gyfer 2022/23 ac edrychaf ymlaen at fynychu eich Pwyllgor ar 13 Hydref ar gyfer eich ystyriaeth o'n Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020/21 a'n Hamcangyfrif ar gyfer 2022/23.

Mae ein Hamcangyfrif a Gyflwynwyd ar gyfer y flwyddyn nesaf yn cyfeirio at Gyllideb Atodol arfaethedig i'w chyflwyno'r flwyddyn ariannol hon. Er na fydd y Cyllidebau Atodol yn cael eu hystyried tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol, roeddwn i'n meddwl y byddai'n ddefnyddiol bod yn agored gyda chi nawr ynglŷn â'r Gyllideb Atodol arfaethedig a gyflwynir, gan fod ganddo rai canlyniadau ar gyfer 2022/23. Mae'r nodiadau isod yn esbonio.

**Cefndir**
Fel yr esboniwyd i'r Pwyllgor yn y sesiwn graffu ym mis Hydref 2020, nid oedd y gofynion o ran Adnoddau ac Arian wedi newid ers cyllideb 2020/21. Ni cheisiwyd unrhyw adnoddau ychwanegol gyda'r bwriad o hunan-gyllido cynnydd mewn costau cyflogau o ganlyniad i gynyddran cyflogau staff. Yn unol â'r disgwyliadau, ym mis Medi 2020, i rewi cyflogau'r sector cyhoeddus, ni wnaed unrhyw lwfans ar gyfer dyfarniad cyflog.

**Cyflogau Staff a Chostau Cysylltiedig**
Mae cyflogau staff wedi'u cysylltu â negodiadau cyflogau'r Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol. Mae'r cynnig cyflog diweddaraf o 1.75% wedi


Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru / Public Services Ombudsman for Wales, 1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ
www.ombwdsmon.cymru / www.ombudsman.wales
01656 641150 01656 641199 holwch@ombwdsmon.cymru / ask@ombudsman.wales
Bydd pob galwad yn cael ei recordio ar gyfer dibenion hyfforddi a chyfeirio / All calls are recorded for training and reference purposes

Rydym yn hapus i dderbyn ac ymateb i ohebiaeth yn Gymraeg. Ni fydd hyn yn arwain at oedi. Mae ein holl ddogfennau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg
We are happy to accept and respond to correspondence in Welsh. This will not lead to a delay. All our documents are available in both Welsh and English

cael ei wneud gan ochr y cyflogwr ond ni chafodd ei dderbyn ym mis Medi 2020. Er bod OGCC wedi penderfynu rhewi cyflogau, byddwn yn ceisio ariannu 1% o'r cynnydd hwn mewn cyflogau o'r cyllidebau cymeradwy presennol.

Yng ngoleuni pandemig Covid a'i effaith ar gynlluniau gwyliau ein staff, gwnaethom gynyddu faint o wyliau blynyddol mae modd eu trosglwyddo dros dro, o un flwyddyn wyliau flynyddol i'r nesaf, i 14 diwrnod. Roedd hyn yn cynyddu'r gwyliau blynyddol a gronnwyd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ond bydd yn lleihau'r croniad gofynnol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ar 31 Mawrth 2022. Mae'r amcangyfrif o'r effaith ar adnoddau yn gredyd unwaith yn unig o £40k heb unrhyw effaith ar y gofyniad am arian.

**TG**

Rydym yn ymwybodol o'r bygythiadau seiberddiogelwch parhaus i bob system TG, ac o'n dibyniaeth gynyddol ar systemau TG ar gyfer ein holl waith a chyfathrebu. Mae'r newidiadau a gyflwynwyd i gefnogi gweithio'n effeithiol gartref yn ystod y pandemig yn cynyddu ein dibyniaeth ar systemau TG ymhellach. Felly, fe wnaethom gomisiynu ein darparwr cymorth TG newydd i adolygu ein systemau i ganfod risgiau i ddiogelwch, cadernid a pherfformiad.

Mae eu hadroddiad wedi nodi'r buddsoddiad hollbwysig sydd ei angen i reoli diffygion o ran diogelwch a pherfformiad. Mae cyfanswm y gost yn £122k sy'n cynnwys £72k o refeniw a £50k o gyfalaf ac mae £115k o hwnnw'n gostau unwaith yn unig a £7k yn gostau rheolaidd. Er bod y rhain yn gostau sylweddol, rydym yn ymwybodol o gostau enfawr colli systemau a/neu ddata TG a'r gost uchel o ran amser staff anghynhyrchiol os collir systemau. Yn y cyd-destun hwn, daethom i'r casgliad bod yn rhaid i ni ddilyn y cyngor arbenigol a gwneud y gwelliannau a'r diweddariadau a argymhellir, yn ddi-oed. Rydym felly wedi cymeradwyo ac wedi dechrau'r gwaith hwn. Bydd OGCC yn ariannu £7k o refeniw ar gyfer 2021/22 o gyllidebau presennol. Mae dibrisiant rhan o flwyddyn ar yr elfen gyfalaf yn £5k.

**Crynodeb 2021/22**

Rhagwelwn geisio £30,000 ychwanegol tuag at gost dyfarniad cyflog 2021/22 ond gwnawn addasu hyn unwaith y bydd y dyfarniad cyflog gwirioneddol yn hysbys. Ar gyfer TG, rydym yn chwilio am £65,000 o refeniw a £50,000 o gyfalaf. Cyfanswm y cynnydd dros dro yw £145,000 mewn **arian** - Ar ôl addasu ar gyfer dibrisiant a symudiadau eraill nad ydynt yn arian (llai o wyliau blynyddol wedi cronni), mae'r swm a geisir yn nhermau **adnoddau** yn £110,000 ychwanegol, ar hyn o bryd.

Rwy'n gobeithio bod y wybodaeth hon yn ddefnyddiol. Byddwn yn hapus i ddarparu rhagor o fanylion neu esboniad pellach i'r Pwyllgor, ond rhowch wybod i mi os oes angen unrhyw wybodaeth bellach arnoch yn y cyfamser.

Yn gywir



**Nick Bennett**
**Ombwdsmon**